| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **22 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – LIFESTYLE EXPRESS 21 FFORDD ELIDIR, MAESINCLA, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Lifestyle Express, 21 Ffordd Elidir, Maesincla , Caernarfon LL55 1DR gan Mr Raja Shajanur, 10 Stryd Faenol , Caernarfon, LL55 2RL. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo o 07:00 y bore hyd at 21:00 yr hwyr o ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, ac o 09:00 y bore ar ddydd Sul tan 20:00 yr hwyr. Mae oriau agor a chau arfaethedig y busnes yn cyfateb i'r oriau gwerthu alcohol.

Mae'r Heddlu wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd ar gychwyn y cyfnod ymgynghori; ac wedi cael cytundeb yr ymgeisydd i dderbyn amodau ar y drwydded mewn perthynas â gosod a defnyddio system teledu cylch cyfyng. Nid oes gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais fel arall.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Tref Caernarfon | E bost - gwrthwynebiad |
| Heddlu | E. bost –sylwadau a dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | 17 llythyr - gwrthwynebiadau |
| Gwasanaeth Tan | Llythyr – sylwadau, dim gwrthwynebiad |

Yn ogystal â'r uchod fe dderbyniwyd deiseb gydag enw a chyfeiriad 6 preswylydd cyfagos yn gwrthwynebu'r cais. Yn unol â chanllawiau perthnasol i'r Ddeddf Drwyddedu 2003; ni ellir ystyried deiseb fel ymatebion dilys i gais am drwydded.
Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU

### Preswylwyr

Gwrthwynebir y cais ar sail yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu Plant rhag niwed

### Aelodau Cyngor Tref Caernarfon

Gwrthwynebir ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.